Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Practis Deintyddol Pentre-poeth

19 Mai 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: AGIC@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk

Digidol ISBN 978-1-4734-3911-5
© Hawlfraint y Goron 2015

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 2
2. Methodoleg ........ 2
3. Cyd -destun ........ 4
4. Crynodeb ........ 5
5. Canfyddiadau ........ 6

   Profiad y Claf ........ 6

   Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal ........ 8

   Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 12

   Ansawdd yr Amgylchedd ........ 14

6. Y Camau Nesaf ........ 15

   Atodiad A ........ 16

## 1. Cyflwyniad

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Pentre-poeth yn 9 Heol Pentre-poeth, Treforys, Abertawe, SA6 6AA, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ar 19 Mai 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.[1] Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[3] Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal ag unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol eraill.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio

---

[1] http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan

[2] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Pentre-poeth yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Treforys, Abertawe. Mae’r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Mae'n bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG. Darperir amrywiaeth o wasanaethau.

Mae Practis Deintyddol Pentre-poeth yn bractis hyfforddi hefyd, sy’n cynorthwyo deintyddion sydd newydd gymhwyso ac sy’n cyflawni eu blwyddyn gyntaf ym maes deintyddiaeth (ar ôl cwblhau eu gradd prifysgol) trwy ddarparu goruchwyliaeth gan hyfforddwr neilltuedig.

Mae tîm y practis yn cynnwys tri deintydd (gan gynnwys perchennog y practis a dau ddeintydd cyswllt), pedair nyrs ddeintyddol, a rheolwr practis (sydd hefyd yn nyrs ddeintyddol). Ar adeg ein harolygiad, roedd deintydd sylfaen a nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant hefyd yn gweithio yn y practis.

## 4. Crynodeb

Ystyriodd AGIC sut roedd Practis Deintyddol Pentre-poeth yn bodloni’r safonau gofal a nodir yn Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015.

Gwnaeth mwyafrif y cleifion a oedd wedi gwneud sylwadau yn ein holiaduron nodi eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn. Rydym wedi argymell y dylai'r practis ailgyflwyno system ar gyfer asesu barn cleifion ar y gwasanaeth, gyda'r bwriad o wneud gwelliannau'n seiliedig ar yr adborth a ddarperir.

Roedd y practis yn bodloni'r safonau yn y meysydd gofal a ystyriwyd gennym.

Gwelsom fod trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel, rheoli gwastraff, a dadheintio offer deintyddol. Serch hynny, rydym wedi argymell ailgyflwyno system i sicrhau bod dyddiad terfyn defnyddio offer deintyddol glân (wedi eu dadheintio) yn cael ei gofnodi ar y pecynnau, yn unol â pholisi a chanllawiau cenedlaethol.

Roedd y cyfleusterau clinigol yn y practis yn lân ac yn daclus ac wedi eu dodrefnu i hwyluso glanhau er mwyn lleihau croes-heintio.

Gwelsom fod y staff wedi cael hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfwng cleifion (llewygu) a bod ganddynt fynediad at offer a chyffuriau addas ar gyfer eu defnyddio mewn achos brys.

Roedd y sampl o gofnodion a ystyriwyd gennym yn gynhwysfawr ac yn dangos bod gofal wedi cael ei gynllunio a'i gyflenwi mewn modd diogel.

Roedd y practis deintyddol i'w weld wedi ei gynnal a'i gadw'n dda – y tu fewn a’r tu allan.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Gwnaeth mwyafrif y cleifion a oedd wedi gwneud sylwadau yn ein holiaduron nodi eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn. Rydym wedi argymell y dylai'r practis ailgyflwyno system ar gyfer asesu barn cleifion ar y gwasanaeth, gyda'r bwriad o wneud gwelliannau'n seiliedig ar yr adborth a ddarperir.**

Cyn ein hymweliad arolygu, gwnaethom ofyn i reolwr y practis wahodd cleifion i gwblhau holiaduron AGIC. Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 18 o holiaduron oedd wedi eu cwblhau cyn, ac ar ddiwrnod, ein harolygiad.

Trwy gyfrwng ein holiaduron, gwnaethom wahodd cleifion i roi sylwadau ar eu profiad o ddefnyddio'r practis. Dywedodd mwyafrif y cleifion (17) wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent wedi ei dderbyn gan y practis deintyddol. Yn ogystal, nododd y mwyafrif (17 o gleifion) fod tîm y practis yn greosawgar. Dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Nododd rhai cleifion (pedwar) iddynt brofi oedi wrth aros i gael eu gweld gan y deintydd.

Pan ofynnwyd iddynt wneud sylwadau ychwanegol, dywedodd y cleifion wrthym:

> *'Mae'r practis yn lân iawn bob amser ac mae'r staff yn ddymunol bob amser.'*
>
> *'Mae popeth yn wych yma, popeth yn dda.'*
>
> *'Mae'r deintydd … yn berson caredig iawn sy'n gwenu llawer.'*

Dywedodd mwyafrif y cleifion a wnaeth sylwadau yn yr holiaduron eu bod yn gwybod sut i gysylltu â'r gwasanaethau deintyddol (brys) y tu allan i oriau. Serch hynny, dywedodd rhai ohonynt (pump o gleifion) nad oeddent yn gwybod. Er bod y rhif cyswllt mewn argyfwng ar gael yn rhwydd i gleifion, efallai yr hoffai perchennog y practis ystyried sut i godi ymwybyddiaeth ohono ymhellach.

Roedd y practis wedi cyflwyno gwasanaeth atgoffa trwy neges destun, ac yn ôl sylwadau staff y practis, roedd hyn wedi bod yn ddefnyddiol i'r cleifion. Gwnaeth y staff ddisgrifio proses a oedd ar waith ar gyfer hysbysu'r cleifion pe bai eu deintydd yn hwyr neu'n absennol yn annisgwyl ar ddiwrnod eu hapwyntiad.

Roedd gan y practis holiadur i gasglu barn y cleifion ar y gwasanaeth a ddarperir gan dîm y practis. Fodd bynnag, dywedodd perchennog y practis nad oedd arolwg cleifion wedi cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac eglurodd y byddai hyn yn rhywbeth a fyddai'n cael ei gynnal yn y dyfodol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai perchennog y practis wneud trefniadau i ailgyflwyno dull ffurfiol o asesu barn cleifion ar y gwasanaeth a ddarperir a gweithredu yn sgil y farn honno.***

Roedd taflen y practis, y gall y cleifion ei chymryd gyda nhw, yn cynnwys gwybodaeth ymarferol a defnyddiol am y practis. Er bod gwybodaeth ar gael ar wefan y practis hefyd, roedd angen ei diweddaru. Dylai perchennog y practis drefnu i hyn gael ei gwblhau.

Roedd manylion bandiau prisio'r GIG ar gyfer triniaeth yn cael eu harddangos ynghyd â gwybodaeth ar gymhwysedd cleifion ar gyfer triniaeth am ddim. Roedd prisiau hefyd ar gael ar gyfer gwasanaethau deintyddol preifat. Roedd hyn yn golygu bod cleifion a oedd yn ymweld â'r practis yn gallu cael gwybodaeth am faint y gallai fod angen iddynt ei dalu am eu triniaeth ddeintyddol.

Roedd deunydd hybu iechyd ar gael yn yr ystafell aros. Roedd hyn yn golygu bod gwybodaeth a chyngor ar gael i gleifion i'w helpu i ofalu am hylendid ac iechyd y geg eu hunain.

## *Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal*

**Roedd y practis yn bodloni'r safonau yn y meysydd gofal a ystyriwyd gennym.**

**Gwelsom fod trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel, rheoli gwastraff, a dadheintio offer deintyddol. Serch hynny, rydym wedi argymell ailgyflwyno system i sicrhau bod dyddiad terfyn defnyddio offer deintyddol glân (wedi eu dadheintio) yn cael ei gofnodi ar y pecynnau, yn unol â pholisi a chanllawiau cenedlaethol.**

**Roedd y cyfleusterau clinigol yn y practis yn lân ac yn daclus ac wedi eu dodrefnu i hwyluso glanhau er mwyn lleihau croes-heintio.**

**Gwelsom fod y staff wedi cael hyfforddiant i ymdrin ag argyfwng cleifion (llewygu) a bod ganddynt fynediad at offer a chyffuriau addas ar gyfer eu defnyddio mewn argyfwng.**

**Roedd y sampl o gofnodion a ystyriwyd gennym yn gynhwysfawr ac yn dangos bod gofal wedi cael ei gynllunio a'i gyflenwi mewn modd diogel.**

**Offer/dogfennau radiograffeg**

Gwelsom fod trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio'r offer radiograffig yn ddiogel. Roedd ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn cynnwys yr holl ddogfennau perthnasol a gwybodaeth am ddefnyddio offer pelydr-X y practis yn ddiogel. Roedd tystysgrifau gwiriadau diogelwch ar gael ar gyfer pob peiriant pelydr-X a ddefnyddir yn y practis. Gwelsom dystysgrifau a oedd yn nodi bod staff wedi derbyn hyfforddiant cyfredol ar ddefnyddio offer pelydr-X yn ddiogel.

Roedd pelydrau-X digidol yn cael eu defnyddio, ac roedd system sicrhau ansawdd ar waith i sicrhau bod ansawdd delwedd y rhain yn cael ei raddoli a'i gofnodi.

**Dadebru a chymorth cyntaf/cyffuriau brys**

Roedd gan staff fynediad at offer dadebru a chyffuriau brys pe bai argyfwng claf (llewygu) yn y practis. Roedd cyfres o siartiau llif ar gael er mwyn llywio staff trwy'r camau priodol pe bai argyfwng claf yn cael ei nodi. Roedd y rhain wedi cael eu gosod mewn waledi plastig ar wahân, ynghyd â'r cyffuriau oedd i'w defnyddio, er mwyn hwyluso mynediad cyflym a rhwydd mewn argyfwng.

Cadarnhaodd perchennog y practis fod yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant yn y 12 mis diwethaf ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol, a sut i berfformio

adfywiad cardio-pwlmonaidd. Roedd tystysgrifau hyfforddiant a welsom yn cadarnhau hyn.

Roedd system ar waith er mwyn canfod cyffuriau mae eu dyddiad dod i ben wedi mynd heibio a chyflenwi rhai newydd yn eu lle, a hefyd i wirio'r offer brys yn y practis. Roedd llyfrau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio er mwyn rhwystro pobl heb ganiatâd rhag eu defnyddio.

**Trin, storio a gwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus**

Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus. Roedd gwastraff y practis yn cael ei storio'n ddiogel tra ei fod yn aros i gael ei gasglu.

Roedd gan y practis wahanwyr amalgam er mwyn tynnu gronynnau amalgam (llenwadau) o ddŵr gwastraff yn ddiogel. Yn ogystal, roedd cynwysyddion addas ar gael i gadw dannedd a dynnwyd, gan gynnwys rhai gyda llenwadau amalgam, tra oeddent yn aros i gael eu gwaredu'n ddiogel.

Roedd y practis wedi cyflwyno systemau ar gyfer defnyddio offer miniog mwy diogel[4] i leihau'r perygl o anafiadau cysylltiedig (brechiadau) gan nodwyddau.

**Dadheintio offer a chydymffurfiaeth â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Adolygiad 1)**

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer dadheintio (glanhau a sterileiddio) yr offer deintyddol a ddefnyddir yn y practis, a chydymffurfiaeth â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05[5] (WHTM 01-05) (Adolygiad 1).

Gwelsom fod proses addas ar waith ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Roedd ystafell ddadheintio ar wahân yn y practis, fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Dylai hyn, ynghyd â'r

---

[4] Offer miniog mwy diogel yw offer miniog meddygol sydd â nodweddion neu fecanwaith i atal neu leihau'r risg o anaf damweiniol. http://gov.wales/topics/health/cmo/professionals/dental/publication/cdo-letters/sharp-instruments/?skip=1&lang=cy

[5] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Adolygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

defnydd o weithdrefnau rheoli addas, leihau’r risg o groes-heintio rhwng offer deintyddol. Roedd cofnodion o wiriadau wedi'u cynnal, ac roedd y cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol mewn cyflwr da, yn ôl pob golwg.

Gwelsom fod yr offer deintyddol mewn pecynnau priodol er mwyn lleihau’r risg o heintio wrth gael eu storio. Fodd bynnag, nid oedd y tîm deintyddol yn cofnodi'r dyddiad prosesu a'r dyddiad pryd roedd y cyfnod defnyddio'n dod i ben ar y pecynnau’n rheolaidd. Trafodwyd hyn gyda pherchennog y practis, a esboniodd fod hyn wedi bod yn cael ei wneud yn y gorffennol ond dim bellach gan y byddai'r offer deintyddol yn cael eu defnyddio cyn y dyddiad dod i ben. Fodd bynnag, gwnaethom argymell bod y tîm practis yn ailgyflwyno system addas i roi stamp dyddiad ar offer deintyddol oedd wedi cael eu prosesu, fel sy'n cael ei argymell gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Cytunodd perchennog y practis a rheolwr y practis i wneud hyn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod y dyddiad prosesu a'r dyddiad dod i ben ar gyfer offer sydd wedi cael eu glanhau a'u sterileiddio'n cael eu dangos yn glir ar y pecynnau cyn iddynt gael eu storio.***

Gwelsom dystiolaeth fod archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gynnal gan ddefnyddio dull sy'n cyd-fynd yn benodol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn ystod mis Tachwedd 2014. Mae hyn yn caniatáu i dimau deintyddol hunanasesu eu practis mewn perthynas â'r polisi a'r gweithdrefnau sydd ynddo. Roedd tîm y practis wedi nodi meysydd i'w gwella o ganlyniad i'r archwiliad, ac roedd y cofnodion a welsom yn dynodi bod camau wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhain.

**<u>Cyfleusterau clinigol</u>**

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn y practis. Gwelsom fod y tair ystafell driniaeth yn lân, yn daclus, ac wedi'u dodrefnu i hwyluso glanhau hawdd ac effeithiol.

Roedd y cyfarpar a'r offer deintyddol yn lân ac mewn cyflwr da yn ôl pob golwg. Roedd digon o gyfleusterau golchi dwylo ac offer diogelu untro ar gael er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Roedd drws ar bob ystafell driniaeth i amddiffyn preifatrwydd ac urddas cleifion wrth iddynt dderbyn triniaeth.

**Cofnodion cleifion**

Gwnaethom ystyried sampl o 20 o gofnodion deintyddol y cleifion. Roedd y sampl yn cynnwys cofnodion oedd wedi cael eu cwblhau gan bob un o'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis.

Roedd sampl y cofnodion a ystyriwyd gennym yn gynhwysfawr iawn, ac roeddent yn dangos bod gofal wedi'i gynllunio a'i gyflenwi mewn modd oedd yn sicrhau diogelwch a lles cleifion.

### *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Roedd gan y practis reolwr a oedd yn gweithio'n agos gyda pherchennog y practis. Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith, gyda'r bwriad o sicrhau diogelwch cleifion.**

Roedd rheolwr yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, ac roedd yn gweithio'n agos gyda pherchennog y practis. Gwelsom fod y practis yn cael ei reoli'n dda.

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod yr holl staff clinigol sy'n gweithio yn y practis wedi cael eu cofrestru â’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod ganddynt yswiriant indemniad. Gwnaeth y cofnodion a welsom gadarnhau hyn.

Roedd cofnodion hefyd ar gael a oedd yn cadarnhau bod staff clinigol sy'n gweithio yn y practis wedi derbyn brechiadau rhag hepatitis B. Roedd hyn yn golygu bod y staff wedi cymryd camau priodol i sicrhau eu diogelwch eu hunain a diogelwch y cleifion mewn perthynas â hyn. Esboniodd perchennog y practis fod cymorth a chyngor iechyd galwedigaethol ar gael trwy drefniadau gyda'r bwrdd iechyd lleol.

Roedd gan y deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis ac a oedd yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat dystysgrifau cofrestru cyfredol gan AGIC. Roedd y rhain wedi'u harddangos yn amlwg yn unol â'r rheoliadau perthnasol ar gyfer deintyddiaeth breifat.

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol, gyda'r bwriad o sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu darparu'n ddiogel. Roedd y rhain yn cynnwys polisïau diogelu oedolion sy'n agored i niwed a phlant, rheoli heintiau, a storio a gwaredu gwastraff. Roedd gwybodaeth ar gael i staff ynglŷn â’r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH).

Dywedodd y staff wrthym fod cyfarfodydd practis yn cael eu cynnal bob mis, ac roeddent yn trafod pynciau oedd yn berthnasol i'w gwaith. Roedd cofnodion wedi cael eu cadw o gyfarfodydd y practis. Dywedodd staff wrthym hefyd eu bod yn teimlo bod cyfathrebu o fewn tîm y practis yn dda.

Esboniodd y staff eu bod yn gallu mynd at hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swydd a’u datblygiad proffesiynol parhaus. Roedd y cofnodion a welsom yn cynnwys tystysgrifau hyfforddiant staff ar gyfer amrywiaeth o bynciau. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion yn cael eu trin gan staff â'r sgiliau priodol a hyfforddiant cyfredol.

Roedd y practis yn darparu triniaeth breifat a thriniaeth y GIG, ac roedd gweithdrefnau ysgrifenedig ar waith er mwyn i'r cleifion leisio pryderon (cwynion). Ar y cyfan, roedd y rhain yn bodloni'r trefniadau ar gyfer gofal a thriniaeth y GIG a gofal a thriniaeth preifat. Fodd bynnag, er mwyn cydymffurfio â rheoliadau deintyddiaeth breifat, mae angen i'r weithdrefn sy'n ymwneud â gofal preifat gynnwys manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Mae angen i'r weithdrefn ar gyfer gofal y GIG gynnwys manylion cyswllt y cyngor iechyd cymuned lleol. Cytunodd perchennog a rheolwr y practis i ddiweddaru'r gweithdrefnau ysgrifenedig gyda'r wybodaeth hon. Dywedodd staff wrthym y byddent yn gyfforddus wrth leisio unrhyw bryderon yn ymwneud â gwaith gydag uwch staff y practis.

Gwelsom dystiolaeth fod pryderon (cwynion) ffurfiol/ysgrifenedig ac anffurfiol/llafar yn cael eu cofnodi trwy ddefnyddio llyfr cwynion ysgrifenedig. Roedd y practis wedi archwilio cwynion yn rheolaidd, ac roedd yn cynnwys natur y pryder a'r camau gweithredu a gymerwyd. Byddai hyn yn helpu tîm y practis i ganfod themâu sy'n dod i'r amlwg yn y cwynion er mwyn gallu gwneud gwelliannau i'r gwasanaeth fel y bo'n briodol.

Roedd gwybodaeth i gleifion ynglŷn â sut i leisio pryder (cwyn) ar gael yn y practis.  Fodd bynnag, dywedodd dros hanner y cleifion a oedd wedi cwblhau'r holiaduron (deg) nad oeddent yn gwybod pa broses y dylid ei dilyn. Felly, efallai yr hoffai perchennog y practis ymchwilio i sut y gellir gwella ymwybyddiaeth cleifion o'r weithdrefn hon.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Roedd amgylchedd y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda – y tu mewn a'r tu allan.**

Mae Practis Deintyddol Pentre-poeth wedi ei leoli mewn adeilad yn nhref Treforys. Dywedwyd wrthym fod yr adeilad wedi cael ei ddefnyddio fel practis deintyddol am oddeutu 30 mlynedd, a bod y practis wedi dod i feddiant y perchennog presennol oddeutu 11 mlynedd yn ôl.

Er nad oedd llefydd parcio dynodedig ar gael at ddefnydd cleifion, roedd maes parcio cyhoeddus am ddim y dref yn agos. Roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu allan yn ôl pob golwg, ac roedd arwyddion clir at y practis. Roedd enwau a chymwysterau'r deintyddion, ynghyd ag oriau agor y practis a'r rhif cyswllt mewn argyfwng, hefyd wedi'u harddangos yn glir ger y brif fynedfa. Roedd hyn yn golygu bod cleifion a oedd yn ymweld â'r practis deintyddol pan oedd ar gau yn cael eu cyfeirio at rif i'w ffonio pe bai angen triniaeth ddeintyddol frys arnynt.

Roedd ramp symudol ar gael er mwyn i bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn neu gyfarpar cymorth symudedd fynd i mewn i'r adeilad. Roedd cyfleusterau yn y practis wedi cael eu trefnu dros ddau lawr. Roedd y rhain yn cynnwys derbynfa mewn ystafell aros ar y llawr daear, ystafell driniaeth ar y llawr daear, a dwy ystafell driniaeth arall ar y llawr cyntaf. Roedd yr adeilad wedi ei addurno i safon dda y tu mewn. Roedd toiledau i'r staff a chleifion mewn estyniad y tu allan ger y prif adeilad. Nid oedd mynediad i'r cyfleusterau hyn yn addas i gleifion ag anawsterau symudedd sylweddol. Yn ystod taith o gwmpas yr adeilad, gwelsom fod y mannau hyn yn lân ac yn daclus ac wedi'u goleuo a'u hawyru'n ddigonol. Roedd y toiledau'n cynnwys cyfleusterau golchi dwylo addas a thywelion papur i atal croes-heintio.

Roedd cypyrddau ffeilio y gellir eu cloi yn cael eu defnyddio i gadw cofnodion yn ddiogel. Roedd angen cyfrinair ar y staff i gael mynediad at gofnodion electronig. Roedd hyn yn golygu bod trefniadau ar waith i ddiogelu gwybodaeth bersonol cleifion sy'n cael ei chadw yn y practis.

Roedd arwyddion clir at yr allanfeydd tân, ac roedd y cyfarwyddiadau i'w dilyn pe bai tân yn cael eu harddangos. Roedd offer diffodd tân ar gael, a rhoddwyd tystiolaeth i ni fod contract ar waith ar gyfer cynnal a chadw offer diffodd tân. Roedd hyn yn golygu bod gan staff a chleifion wybodaeth ar sut i adael yr adeilad yn ddiogel mewn tân a bod offer addas ar gael i'r staff eu defnyddio pe bai angen.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae’r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i’r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella mewn perthynas â phrofiad y claf a chyflenwi Safonau Iechyd a Gofal. Mae manylion hyn i’w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai’r cynllun gwella nodi’n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Pentre-poeth yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o’r broses arolygu deintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Pentre-poeth

## Dyddiad yr arolygiad: 19 Mai 2015

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| 7 | Dylai perchennog y practis wneud trefniadau i ailgyflwyno dull ffurfiol ar gyfer asesu barn cleifion yn rheolaidd ar y gwasanaeth a ddarperir a gweithredu yn sgil y farn honno.<br><br>(Safonau Iechyd a Gofal, Safon 6.3) | Bydd y practis yn cynnal asesiad blynyddol o farn cleifion ac yn gweithredu yn sgil unrhyw ganfyddiadau sylweddol. | Allison Walker | 1 Rhagfyr 2015 |
| | **Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal** | | | |
| 10 | Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod y dyddiad prosesu a'r dyddiad dod i ben ar gyfer offer deintyddol sydd wedi cael eu glanhau a'u | Bydd 'Polisi Rheoli Heintiau'r Practis' yn cael ei ddiweddaru i gynnwys rhoi dyddiad ar becynnau offer deintyddol sydd wedi cael eu glanhau a'u sterileiddio fel yr amlinellir yn y Safonau Iechyd a | Allison Walker | 31 Gorffennaf 2015 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | sterileiddio'n cael eu dangos yn glir ar y pecynnau cyn iddynt gael eu storio.<br>(Safonau Iechyd a Gofal, Safon 2.4; Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, Paragraffau 2.4(k) a 4.26) | Gofal. | | |
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| | - | | | |
| | **Ansawdd yr Amgylchedd** | | | |
| | - | | | |

## Cynrychiolydd y Practis:

**Enw (llythrennau bras):** **Allison Walker.........................................................**

**Teitl:** **Prif Ddeintydd a Pherchennog..........................................**

**Dyddiad:** **27 Mehefin 2015.........................................................**